**CABINET - DYDD MAWRTH, 8 EBRILL 2025**

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 8 EBRILL 2025 14:30

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | E L P Caparros | P Davies | M J Evans |
| M Jones | | | |

Presennol – O Bell

| | |
|---|---|
| JC Spanswick | HM Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Janine Nightingale

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiad o Fuddiannau

Y Cyng Paul Davies – Buddiant rhagfarnus yn eitem 6

Y Cyng Neelo Farr – Buddiant rhagfarnus yn eitem 6
Y Cyng Eugene Caparros – Buddiant rhagfarnus yn eitem 6

**471. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: cymeradwyo cofnodion 18/02/2025 ac 11/03/2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

**472. Polisi Cludiant â Chymorth**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Polisi Cludiant â Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.<br><br>Roedd y polisi'n egluro sut y dylai darparu cludiant â chymorth gan yr Awdurdod fod y dewis olaf i'w ddefnyddio i sicrhau bod unigolyn yn gallu cael mynediad at wasanaeth a nodwyd i ateb angen neu sicrhau canlyniad, gan gynnwys defnyddio dewisiadau cludiant teuluol, cyhoeddus a/neu gymunedol. Rhoddai'r polisi hefyd ganllawiau i staff, wrth ystyried yr angen am gludiant i gael mynediad at wasanaeth sy'n ateb angen neu'n sicrhau canlyniad a nodwyd, i'w cynorthwyo i sicrhau bod blaenoriaeth i ddefnyddio darpariaeth cludiant yn cael ei rhoi i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.<br><br>Croesawodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad a'r ffaith fod y newidiadau arfaethedig yn amserol gan ei bod yn hen bryd.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn cymeradwyo Polisi Cludiant â Chymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Atodiad 1) i ddod i rym ar y 1af o Fai 2025. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

**473. Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Wasanaethau Rheoledig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniadau arolygiad AGC a wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion a reoleiddir gan y cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Dywedodd fod chwe arolygiad wedi cael eu cynnal gan AGC. Rhoddodd gefndir i'r pedair thema a ystyriwyd yn ystod yr arolygiadau: lles, ansawdd gofal a chymorth, arweinyddiaeth/rheolaeth, a'r amgylchedd (ac eithrio gofal cartref). Ychwanegodd fod sgoriau newydd AGC (Da, Rhagorol, Angen Gwella a Gwael) wedi cael eu cyflwyno cyn eu cyhoeddi'n ffurfiol yn 2025. Tynnodd sylw at ganfyddiadau allweddol yr arolygiad ar gyfer y chwe ysgol fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai a oedd yr arolygiadau'n cwmpasu darparwyr gofal cartref mewnol ynteu allanol. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles mai dim ond gwasanaethau dan arweiniad y cyngor oeddent. Roedd darparwyr allanol yn cael eu harolygu ar wahân.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai a oedd y gwasanaethau wedi cael eu dewis ar hap ynteu'n ymweliadau wedi cael eu cynllunio. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y rhain wedi cael eu dewis ar hap a'u hymweliadau yn rhai dirybudd. Gofynnodd Aelod y Cabinet hefyd sut y câi cynnydd ei fonitro yn y cartrefi lle yr oedd angen gwelliannau. Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod y rhain yn cael eu holrhain drwy'r traciwr rheoleiddio sy'n cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau, o ran y gwelliant sydd ei angen ar gyfer cynlluniau personol nad ydynt yn cael eu diweddaru yn Nhŷ Ynysawdre, beth oedd y problemau penodol, a sut y caiff gwelliannau eu sicrhau yn weithredol cyn y sgôr nesaf. Dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gwelliannau'n cynnwys safoni dogfennaeth ar draws cartrefi, adolygiadau rheolaidd gan reolwyr, ymchwilio'n fanwl i gynlluniau gofal ac ymweliadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod arfer yn cyd-fynd â chartrefi eraill cyn yr arolygiad nesaf.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

## 474. Dyraniadau o dan Gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned, 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau – y Gwasanaethau Cymunedol adroddiad oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dyrannu cyllid cyfalaf i Gynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu prosiectau yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad hwn o gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned (C&C) ar gyfer 2025-26.<br><br>Esboniodd fod gan BCBC £50,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd dilynol yn y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cyngor i gefnogi ceisiadau gan Gynghorau Tref a Chymuned ar gyfer prosiectau cyfalaf. Gyda'r swm oedd yn cael ei gario arian ymlaen o 2024-25, y gyllideb sydd ar gael ar gyfer 2025-26 yw £171,892.90.<br><br>Gofynnodd yr Arweinydd pam yr agorwyd y gronfa yng nghanol y flwyddyn ac awgrymodd y dylid osgoi hyn oherwydd gosod praeseptau'r cyngor.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau a oedd y Cynghorau Tref a Chymuned yn ymwybodol o'r cynllun, y meini prawf, a'r broses, ac ym mha ffordd yr oedd hyn yn cael ei hyrwyddo iddynt. Dywedodd Pennaeth Gweithrediadau – y Gwasanaethau Cymunedol fod pob Cyngor Tref a Chymuned wedi derbyn llythyr yn eu gwneud yn ymwybodol o'r grant, ond nad oeddem yn siŵr, fodd bynnag, eu bod i gyd yn deall y grant a ph'un a oeddent yn gymwys i wneud cais amdano, ac roedd yn cydnabod bod angen gweithio mwy ar gysylltu.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau pa gefnogaeth oedd ganddynt ar gyfer ceisiadau. Esboniodd Pennaeth Gweithrediadau – y Gwasanaethau Cymunedol fod y cynlluniau presennol yn cynnwys y swyddog presennol yn cynorthwyo ymgeiswyr aflwyddiannus i ailymgeisio. Mae cynlluniau tymor hwy yn dibynnu ar swydd cysylltydd newydd i ddarparu cymorth, arweiniad a chyd-drefnu pwrpasol i Gynghorau Tref a Chymuned ar draws amrywiol faterion, gan gynnwys grantiau. Disgwylid recriwtio ar gyfer y swydd hon yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad a ellid gwneud gwelliant i'r argymhelliad i ganiatáu ailagor y gronfa ac iddi aros ar agor nes i'r cyllid beidio â bod ar gael mwyach. Credai y byddai hyn yn caniatáu mwy o ymgysylltiad a defnydd o'r cyllid. Roedd yr aelodau'n cytuno â'r argymhelliad hwn.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo: |

| | |
|---|---|
| | 1. Dyrannu cyllid cyfalaf o fewn y Rhaglen Gyfalaf bresennol o £40,000 o dan gynllun Grant Cyfalaf Cynghorau Tref a Chymuned, 2025-26 i ddatblygu prosiectau yn unol â'r ceisiadau penodol a nodir yn Nhabl 2 a 3.<br><br>Cytunodd Aelodau'r Cabinet ar welliant i'r ail bwynt, oedd fel a ganlyn:<br><br>2. Ailagor y gronfa a chaniatáu i'r cyfnod dyrannu aros ar agor am gyfnod amhenodol, yn amodol ar y cyllid fyddai ar gael |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

### 475. Adolygiad o’r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2025/26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o Gynllun Cyflawni’r Cynllun Corfforaethol, wedi ei ddiweddaru ar gyfer 2025/26.<br><br>Esboniodd fod yr Amcanion Lles wedi cael eu gostwng o 7 i 4 gyda rhai wedi eu cyfuno neu wedi eu cynnwys mewn rhai eraill:<br><br>• Lles:<br>    ○ Lle llewyrchus gyda chymunedau ffyniannus<br>    ○ Creu gwasanaethau cyhoeddus modern, diwnïad<br>    ○ Galluogi pobl i gyflawni eu potensial<br>    ○ Cefnogi ein rhai mwyaf agored i niwed<br><br>• Gostyngwyd y nodau o 41 i 20.<br>• Gostyngwyd y dangosyddion perfformiad o 108 i 65.<br>• Gostyngwyd yr ymrwymiadau o 80 i 61.<br><br>Roedd targedau'r Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol wedi cael eu cymeradwyo'n wleidyddol ar wahân i'r CPDP. Yn 2024, roedd y CMB wedi gofyn am i'r broses hon gael ei symleiddio, ac i'r ddau fynd drwy gymeradwyaeth wleidyddol gyda'i gilydd. Cafodd y newid hwn ei ymgorffori yn y broses, a |

| | |
|---|---|
| | chynhwyswyd y targedau yn Atodiad 2.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau a ellid ymhelaethu ar Amcan 2 ynghylch y camau a gymerwyd / gynigiwyd i wella cyfathrebu â thrigolion, plant a phobl ifanc er mwyn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid. Esboniodd y Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol fod yr ymrwymiad hwn yn dod o dan gyfrifoldeb y tîm Cyfathrebu a dywedodd fod cynlluniau a cherrig milltir manwl wrthi'n cael eu datblygu. Câi manylion pellach eu darparu'n uniongyrchol gan y Rheolwr Cyfathrebu maes o law.<br><br>Tynnodd yr Arweinydd sylw at nifer o'r targedau yn yr adroddiad nad oeddent yn ddigon heriol i'n gwthio. Awgrymodd feincnod uwch ar gyfer nifer o'r targedau oedd wedi aros yr un fath ers blynyddoedd. Cytunai'r Prif Weithredwr â'r awgrym hwn ond pwysleisiodd bwysigrwydd cael targedau realistig a chyraeddadwy yn y sefyllfa ariannol bresennol.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau pam yr oedd diffyg gwelliannau i darged salwch. Dywedodd y Prif Weithredwr fod penderfyniad wedi cael ei wneud nifer o flynyddoedd yn ôl i ddileu hwn oherwydd ei natur afrealistig gan nad oedd modd rheoli salwch yn aml oherwydd ffactorau allanol ac yn y blaen. Fodd bynnag, roedd yn hapus i hyn gael ei ailystyried yn y dyfodol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>• Wedi ystyried a chytuno ar y CPDP arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn Atodiad 1<br><br>• Wedi ystyried a chytuno ar dargedau'r dangosyddion perfformiad arfaethedig ar gyfer 2025/206 yn Atodiad 2. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

## 476. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

## 477. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Nid oedd yr eitemau canlynol i gael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth a eithriwyd fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |

## 478. Cymeradwyo Cofnodion a Eithriwyd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion a eithriwyd 18/02/2025 ac 11/03/2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 08 Ebrill 2025 |